CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

Adroddiad ar y Cyfnod Sylfaen

Cyflwyniad

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn datgan:

   Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:

   (i) gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;

   (ii) yr amserlen ar gyfer ystyried awgrymiadau cyllideb a chynigion cyllideb ac ar drin a thrafod busnes ariannol; a

   (iii) unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y llywodraeth neu wariant arall o Gronfa Gyfunol Cymru neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.

2. Bu cryn bryder ynghylch ariannu'r Cyfnod Sylfaen ac o ganlyniad penderfynodd y Pwyllgor Cyllid gynnal ymchwiliad byr i'r mater yn unol â'i bwerau o dan Reol Sefydlog 14.2 (iii).

Y cefndir

3. Y Cyfnod Sylfaen yw un o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rhaglen *Cymru'n Un.* Y nod oedd newid y dull o addysgu plant rhwng 3 a 7 oed drwy gyflwyno cwricwlwm addas i'w galluogi i ddatblygu, gan roi sylw i anghenion a buddiannau penodol pob plentyn. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi pwyslais ar annog plant i ddysgu drwy wneud. Mae'n rhoi cyfleoedd i blant ifanc gael profiadau uniongyrchol drwy chwarae a bod yn weithgar, yn hytrach na thrwy gwblhau ymarferion mewn llyfrau.

4. Dechreuwyd cynllun peilot ym mis Medi 2004 mewn 41 o ysgolion, a bydd hyn yn para tan fis Medi 2008. Bryd hynny, dechreuir cyflwyno'r cynllun yn statudol. Bydd hyn yn arwain at benderfynu ar y gofynion terfynol, megis y gymhareb rhwng nifer yr oedolion a nifer y plant, y gofod sydd ei angen ar blant ifanc i wneud gweithgareddau, a'r strategaethau addysgu a dysgu gorau ar gyfer y grŵp oedran hwn.

5. Ym mis Tachwedd 2005, cyhoeddodd Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen drwy Gymru. Gobeithir y bydd pob plentyn rhwng 3 a 7 oed yn cael addysg Cyfnod Sylfaen o ddechrau blwyddyn ysgol 2010/11.

6. Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grant o £25 miliwn yng nghyllideb 2008/09 ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen o fis Medi ymlaen. Mae nifer o sefydliadau wedi

mynegi pryder bod hyn yn annigonol, ac yn ei datganiad ar 7 Mai, cyhoeddodd Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y byddai £5 miliwn yn ychwanegol ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

7. Fodd bynnag, bydd yr arian hwn i'w dynnu o gyllideb bresennol yr adran, a chaiff ei neilltuo ar gyfer yr ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar yng Nghymru yn unig. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd y bydd darpariaeth yng nghyllideb derfynol 2009-10 er mwyn i'r cymorth hwn yn y cyfnod pontio barhau yn nhymor yr haf 2009. Fodd bynnag, roedd y pryderon yn dal i fodoli er gwaethaf y cyhoeddiad hwn.

Y dystiolaeth

8. Yn ei gyfarfod ar 22 Mai, rhoddodd y Pwyllgor Cyllid ystyriaeth i bapurau gan y canlynol:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)

9. Cyflwynwyd tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor gan y canlynol:

- Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

- Steve Thomas, Prif Weithredwr CLlLC
- Dr Chris Llewellyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, CLlLC
- Daisy Seabourne, Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes CLlLC
- David Hopkins, Cadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- Sue O'Halloran, Cadeirydd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
- Richard Edwards, Ysgrifennydd NAHT Cymru
- Iwan Guy, Cyfarwyddwr Dros Dro, NAHT Cymru
- David Griffiths, Pennaeth Ysgol Gynradd Llanbedr-y-fro.

10. Wedi hyn, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog yn nodi materion penodol, ac ymatebodd y Gweinidog mewn llythyr ar 2 Mehefin. Rydym yn dal i ddisgwyl am dystiolaeth bellach gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[i].

11. Ers i'r dystiolaeth ddod i law, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad (ar 9 Mehefin) yn dweud y byddai'r Cyfnod Sylfaen nawr yn cael ei gyflwyno dros gyfnod o bedair blynedd ac y byddai'n ysgrifennu at y partïon perthnasol i gadarnhau hyblygrwydd y trefniadau hyn.

Materion o bwys

Materion cyffredinol

12. Nid yw cwmpas ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid yn ymwneud â'r polisi sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen, ond nododd y pwyllgor fod yr holl dystion yn gefnogol iawn i'r cynllun ac i'r dull o weithio. Er enghraifft, yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, roedd consensws gwirioneddol mai'r rhaglen oedd y ffordd orau ymlaen ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghymru[ii]. Mynegwyd yr un peth gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a nododd ei bod yn gwbl ymrwymedig i amcanion y Cyfnod Sylfaen[iii]. Roedd cefnogaeth hefyd yn y llythyrau a'r sylwadau a ddaeth i law'r pwyllgor a'i Aelodau.

Cyllid cyffredinol

13. Mae'r prif bryder yn ymwneud â chyllido staff a hyfforddiant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid[iv] fod cyfanswm o £30 miliwn ar gael eleni ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys y £5 miliwn yn ychwanegol a gyhoeddwyd ar 7 Mai. Roedd y Gweinidog yn cydnabod[v] y byddai angen rhagor o gyllid ar ôl 2009. Dywedodd mai'r peth allweddol[vi] oedd sicrhau bod ganddi ddata cadarn i wneud rhagamcaniadau ariannol a fyddai'n cyflwyno achos cryf i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd ei bod yn sicr y bydd yn rhaid cynyddu'r swm a neilltuwyd yn ei chyllideb ar gyfer y blynyddoedd nesaf er mwyn darparu digon o gymorth i gyflwyno'r rhaglen allweddol hon drwy Gymru[vii].

14. Dywedodd y Gweinidog bod anawsterau wedi codi gan nad oedd ysgolion wedi rhoi digon o wybodaeth am eu hanghenion. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwyr Addysg am y wybodaeth hon ym mis Chwefror 2006, gan ddisgwyl ateb erbyn diwedd mis Mawrth 2006[viii]. Erbyn mis Mai 2007, roedd 16 o'r 22 awdurdod lleol wedi anfon gwybodaeth yn ôl[ix] – er nad oedd y wybodaeth hon yn gyflawn bob tro. Pan oedd y Llywodraeth a'r awdurdodau lleol wedi dod ynghyd ym mis Mawrth 2007, roedd diffyg eglurder o hyd ynghylch y rhagamcaniadau[x]. Y sefyllfa ddiweddaraf oedd bod y Llywodraeth wedi gofyn am wybodaeth erbyn diwedd mis Mehefin, a hynny er mwyn cael rhagamcaniadau clir ar gyfer trafodaethau'r Gweinidog ynghylch cyllid o 2009 ymlaen.

15. Roedd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru farn wahanol. Cyfeiriwyd[xi] at gytundeb Essex/Jones, sy'n nodi bod yn rhaid i unrhyw gynllun newydd gael ei gyllido'n llawn cyn cael ei weithredu. Dywedodd y gymdeithas ei bod wedi asesu'r gost o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn adroddiad yr is-gylch dros wariant (http://www.wlga.gov.uk/english/finance-publications/welsh-local-government-financial-priorities-2008-09/) a bod swyddogion y Cynulliad wedi cytuno ar hyn[xii].

16. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[xiii] fod y cyllid ar gyfer blwyddyn gyntaf y Cyfnod Sylfaen wedi'i nodi'n glir yn yr adroddiad hwnnw, sef cost o £30 miliwn yn ychwanegol at y £10 miliwn ar gyfer y rhaglen beilot. Seiliwyd hyn ar gyfrifiadau a wnaed ac y cytunwyd arnynt â swyddogion. Trafodwyd yr adroddiad yn y fforwm ymgynghorol ar gyllid ar 17 Gorffennaf 2007. Nodwyd, fodd bynnag, nad oedd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol ar y pryd yn cytuno â'r ffigyrau ac na chawsant eu cymeradwyo ganddo, er iddo gymeradwyo'r adroddiad[xiv]. Dywedodd y gymdeithas hefyd[xv] bod sawl ffordd o ragdybio'r gost o gyflwyno'r cynllun, a bod hyn wedi'i nodi yn ei thystiolaeth ysgrifenedig. Cyfeiriwyd yn ogystal at adroddiad yr is-gylch dros wariant, gan nodi y bydd y gost yn newid dros amser wrth i ffeithiau a realiti'r broses weithredu newid.

17. Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wedi'i synnu â methiant awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth[xvi]. Dywedodd fod ysgolion yn cael ceisiadau am wybodaeth rif y gwlith a'i bod wedi synnu, os oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud cais, nad oedd y wybodaeth wedi'i rhoi. Dywedodd hefyd[xvii] fod gan y gymdeithas yr holl wybodaeth a drafodwyd a bod yr atebion ar gael.

18. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid wedi edrych yn fanwl ar yr anghytuno hwn. Ni fyddai hynny wedi bod yn realistig yn yr amser a oedd ar gael, ac nid lle'r pwyllgor yw cymrodeddu ar faterion o'r fath beth bynnag.

19. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu nad oedd y wybodaeth berthnasol wedi'i throsglwyddo'n agored rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac nad oedd consensws ynghylch y wybodaeth y gwnaed cais amdani. Mae'n ymddangos bod hyn yn ddiffyg sylfaenol a bod angen mynd i'r afael â'r broblem.

20. Roedd y Gweinidog yn cydnabod[xviii] bod angen cynyddu'r swm sydd wedi'i neilltuo ar hyn o bryd yn ei chyllideb ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Amcangyfrifon o gostau staff

21. Un o'r materion pwysicaf wrth roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith fydd y broses o recriwtio nifer sylweddol o gynorthwywyr dosbarth. Roedd adroddiad yr is-gylch dros wariant yn amcangyfrif y byddai angen 2,800 ohonynt er mwyn ateb y galw a sicrhau cymhareb o 1:8 rhwng oedolion a disgyblion (http://www.wlga.gov.uk/cymraeg/materion-ariannol-publications/blaenoriaethau-ariannol-byd-llywodraeth-leol-cymru-ar-gyfer-2008-09/). Mae hon yn elfen bwysig iawn wrth amcangyfrif y cyllid ac mae'n allweddol wrth gyfrifo'r gyllideb. Dywedodd y Gweinidog[xix] ei bod wedi amcangyfrif y ffigurau ar sail pwynt 14 ar y raddfa gyflog, sef £15,115 y pen a'r cyflog cychwynnol i staff NVQ 3. Byddai hyn yn cynnwys costau rheolaidd. Ym marn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dylai'r ffigur (gan gynnwys y costau rheolaidd) fod yng nghanol y raddfa NVQ3 berthnasol, sef £18,250.[xx]

22. Mae'n rhaid penodi cynorthwywyr dosbarth yn unol â Safonau Gofynnol Cenedlaethol ASGC ar gyfer gofal dydd i blant o dan wyth oed, sy'n nodi: "Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan y person sy'n gyfrifol gymhwyster lefel 3 o leiaf o Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ACCAC ar gyfer Addysg y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae sy'n briodol i'r swydd." http://new.wales.gov.uk/cssiwsubsite/cssiw/regulations/childrensday/?lang=cy. Mae Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen[xxi] http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/learning_pathways2/buildingfoundationphase-e?lang=en yn nodi y bydd staff yn cael eu hannog i ennill cymwysterau lefel 4.

23. O ganlyniad, efallai y bydd yn anodd i Awdurdodau Lleol gynllunio drwy seilio hynny ar dalu'r holl staff ar bwynt cychwynnol y raddfa. Yn fwy na hynny, bydd y drifft graddol y cyfeirir ato gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon[xxii] yn cynyddu'r costau hyn yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Cymarebau staff

24. Mae pryder wedi'i fynegi ynghylch a yw'r Llywodraeth yn ymrwymedig i sicrhau cymhareb o 1:8 rhwng staff a disgyblion. Mae'r ffigur yn allweddol wrth asesu'r cyllid sy'n angenrheidiol ar gyfer y fenter. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Gweinidog ei bod yn gwbl ymrwymedig i sicrhau cymhareb o 1:8 rhwng oedolion a disgyblion, ac yn fwy na hynny, i sicrhau cymhareb o 1:15 ar gyfer plant rhwng pump a saith oed.

25. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid am eglurhad ar y sefyllfa statudol wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Cadarnhaodd y Gweinidog mai'r cwricwlwm oedd yr elfen statudol, yn hytrach na'r gymhareb o 1:8 rhwng oedolion a disgyblion. Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn pryderu nad oedd y gymhareb o 1:8 yn statudol.

26. Roedd tystion yn ansicr ynghylch sut y byddai'r gymhareb o 1:8 yn gweithio'n ymarferol. Er enghraifft, a fyddai dosbarth â naw o blant yn sicr o gael cyllid ar gyfer ail gynorthwyydd dosbarth, neu a fyddai disgwyl i ddosbarth o bymtheg ymdopi â dim ond un? Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[xxiii] bod y diffiniad ei hun yn golygu y dylai fod gennych hawl i gael staff ychwanegol unwaith y bydd mwy nag wyth o blant yn y dosbarth. Credai'r gymdeithas fod hyn yn hanfodol, gan mai sicrhau ansawdd a dim arall yw'r nod. Ar y llaw arall, nid oedd y gymdeithas yn sicr bod hyn yn digwydd ar lawr gwlad.

27. Dywedodd y Gweinidog fod hyn yn fater o benderfynu ar y manylion gweithredol wrth gyllido'r broses o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.[xxiv] Nododd y Pwyllgor Cyllid fod y Gweinidog o blaid y gymhareb o 1:8 rhwng oedolion a phlant ym mhob lleoliad dysgu, ac nad oedd y cyfrifiadau wedi'u gwneud ar sail cyfartaledd drwy Gymru.

Cyflwyno'r cynllun yn dilyn y prosiectau peilot

28. Roedd pryder arall a ddaeth i sylw'r pwyllgor yn ymwneud â'r prosiectau peilot. Er bod y Cyfnod Sylfaen wedi'i ddatblygu drwy nifer o'r prosiectau peilot hyn, ni fyddai'n bosibl darparu'r un lefel o gyllid wrth gyflwyno'r cynllun mewn ysgolion eraill, ac efallai y byddai hyn yn arwain at greu system 'ddwy haen'. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wrth y pwyllgor[xxv] bod cymhareb o 1:8 yn cael ei chyllido ar gyfer y disgyblion yn yr ysgolion peilot ac y byddai'r 'nawfed' plentyn yn arwain yn syth at greu swydd cynorthwyydd addysgu ychwanegol. Roedd gan yr ysgolion hyn gronfeydd ac adnoddau cyfalaf yn ogystal. Cyfeiriodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon[xxvi] at ysgolion o faint tebyg, o fewn pellter agos at ei gilydd, gyda lefelau gwahanol iawn o gyllid. I bwysleisio'r pwynt, cyfeiriwyd at enghraifft mewn un awdurdod lleol lle'r oedd gan yr ysgol beilot gyllid o £172,000, er mai cyfanswm cyllideb yr holl awdurdod oedd £870,000[xxvii].

29. Roedd y Gweinidog[xxviii] yn cydnabod bod gwahaniaethau. Dywedodd fod yr holl brosiectau peilot yn wych a bod yr ysgolion hynny'n hyrwyddwyr, yn arloeswyr ac yn rhoi patrwm i'w ddilyn. Mewn ffordd, roedd yr ysgolion hyn wedi mentro wrth ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen, ac fel pob rhaglen beilot, wedi cael cyllid sylweddol. Roedd yn rhaid i'r Gweinidog ac i randdeiliaid edrych yn gyffredinol ar bontio'r cynlluniau peilot, fel eu bod yn rhan o'r broses gyflwyno a'r gwaith o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llawn.

30. Pwysleisiodd y Gweinidog[xxix] fod yn rhaid i bawb fod yn ymrwymedig i gyflawni'r hyn a welwyd yn ystod y cynlluniau peilot, sef Cyfnod Sylfaen ac iddo gymhareb o 1:8. Dywedodd y byddai modd darparu hyn mewn partneriaeth ag ysgolion ar lawr gwlad

yn ogystal â llywodraeth leol, ond y byddai'n rhaid cydweithio. Aeth yn ei blaen i ddweud[xxx] bod hyn yn dibynnu ar gael cefnogaeth gan awdurdodau lleol o ran y cyllid ychwanegol a fyddai'n sicr o fod yn angenrheidiol ym marn y Gweinidog ar ôl 2009.

Cyfalaf

31. Ynghyd â'r angen i gyllido staff a hyfforddiant, mae angen buddsoddiad cyfalaf hefyd er mwyn datblygu cyfleusterau yn yr ysgolion ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gofynion hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol ysgolion. Yn ôl y tystion,[xxxi] tra na fyddai angen unrhyw fuddsoddiad ar rai ysgolion modern, byddai angen gwneud llawer o waith ar rai ysgolion hŷn er mwyn iddynt fod yn addas i'w diben, os oedd hyn yn bosibl o gwbl. Dywedodd y Gweinidog[xxxii] fod cyllid cyfalaf eisoes wedi'i wario ar y Cyfnod Sylfaen – nid yn unig yn yr ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar, ond hefyd yn nifer o'r ysgolion eraill a oedd wedi cymryd camau eu hunain. Cadarnhaodd[xxxiii] bod £3.5m ar gael eleni drwy Grant Cyfalaf y Blynyddoedd Cynnar a neilltuwyd ar sail y Fformiwla Cyfalaf Cyffredinol.

32. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod[xxxiv] bod cyllid cyfalaf wedi'i roi ac yn croesawu unrhyw arian ychwanegol. Fodd bynnag, ym marn y gymdeithas, byddai angen rhagor o gyllid er mwyn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn iawn[xxxv] a byddai hyn yn anodd oherwydd yr ôl-groniad anferth mewn cyfalaf ysgolion yng Nghymru[xxxvi].

33. Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor[xxxvii] mai dyma'r chweched flwyddyn ers rhoi Grant Cyfalaf ar wahân ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar/y Cyfnod Sylfaen, a hynny er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i wella cyfleusterau a pharatoi at y Cyfnod Sylfaen. Dywedodd y Gweinidog bod cyfanswm buddsoddiad cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad at y diben hwn yn fwy na £27 miliwn ers 2003/4. Nid yw'r ffigurau ar gael i ddangos faint o'r swm hwn a neilltuwyd yn benodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Darparu cyllid i ysgolion

34. Yn ogystal â phenderfynu ar y lefel gywir o gyllid sydd ei angen ar ysgolion er mwyn darparu'r Cyfnod Sylfaen, bydd angen sicrhau hefyd bod yr arian ar gael yn y mannau lle mae angen hynny. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid[xxxviii] y gwneir hyn drwy'r trefniadau presennol a phan fyddai arian newydd ar gael at ddibenion newydd, byddai'r arian hwnnw'n cael ei neilltuo'n benodol. Dywedodd wrth y pwyllgor[xxxix] y dylai amodau'r grantiau nodi'n union sut y caiff yr arian ei wario ac roedd yn falch iawn bod yr amodau hynny'n rhai cadarn ar hyn o bryd. Dywedodd hefyd[xl] fod y Llywodraeth yn gweithio'n uniongyrchol ag Awdurdodau Addysg Lleol, a bod yr Awdurdodau Addysg Lleol yn gweithio'n uniongyrchol â'r ysgolion. Dyma'r trefniant cyfansoddiadol a ystyriwyd yn briodol.

35. Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn pryderu[xli] y byddai Awdurdodau Addysg Lleol yn brigdorri'r cyllid at eu hanghenion eu hunain ac at ddibenion gweinyddu a hyfforddiant. Roedd y gymdeithas am wybod pa amodau a fyddai'n berthnasol i'r cyllid, ac yn ei barn hi, dylid rhoi'r cyllid yn uniongyrchol i'r ysgolion.

36. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu ynghylch y sylw diwethaf hwn, gan ei fod yn rhoi sail i'r ofnau a fynegwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon nad yw ysgolion yn

cael yr holl arian a neilltuwyd ar gyfer y fenter. Serch hynny, mae'r broses o ddarparu'r arian hwn yn gysylltiedig â phrosesau cyllid ehangach llywodraeth leol yn gyffredinol. Er bod modd deall sylwadau Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, mater o bolisi yw hwn yn y pen draw, a mater sydd y tu hwnt i gylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid.

Casgliad

37. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cynnal ymchwiliad byr i'r Cyfnod Sylfaen o ganlyniad i'w bwysigrwydd fel un o fentrau'r Llywodraeth a phryderon ynghylch diffygion wrth ddarparu cyllid ar ei gyfer.

38. Tra nad yw materion polisi'n berthnasol i waith y Pwyllgor Cyllid, mae'n nodi ac yn croesawu'r gefnogaeth eang i'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn pryderu nad oedd y wybodaeth berthnasol wedi'i throsglwyddo'n agored rhwng Awdurdodau Lleol a Chynlluniad Cenedlaethol Cymru. Yn ein barn ni, mae hyn yn fethiant sylfaenol a dylid mynd i'r afael â'r broblem.

39. Mae'r pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn cydnabod bod angen rhagor o gyllid, a'r disgwyl yw y bydd y cyllid hwn ar gael unwaith y caiff y ffigurau terfynol eu cadarnhau.

40. Mae'r pwyllgor yn nodi bod y Llywodraeth yn asesu'r costau staff ar sail y cyflog isaf ar y raddfa ar gyfer NVQ3, sef y lefel angenrheidiol ar gyfer darparu'r Cyfnod Sylfaen. Efallai y bydd yn anodd i awdurdodau recriwtio digon o staff ar y lefel hon.

41. Mae'r pwyllgor yn nodi ac yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn cefnogi'r gymhareb o 1:8 rhwng disgyblion a staff a'i bod yn awyddus i weld y gymhareb hon ym mhob lleoliad dysgu drwy Gymru. Mae'r pwyllgor yn croesawu cadarnhad y Gweinidog mai nad cyfartaledd drwy Gymru yn unig yw'r gymhareb.

42. Mae'r pwyllgor yn nodi ymrwymiad y Gweinidog i sicrhau na fydd cyflwyno'r cynllun yn dilyn y cyfnod peilot yn creu system ddwy haen. Mae'n anodd rhoi rhagor o sylwadau cyn y bydd y cyllid terfynol ar gyfer cyflwyno'r cynllun wedi'i gadarnhau, ond bydd y pwyllgor yn monitro'r datblygiadau'n ofalus yn hyn o beth.

43. Mynegodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a thystion eraill bryderon am lefel y cyllid cyfalaf sydd ar gael i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r pwyllgor yn nodi ymateb y Gweinidog, a gyfeiriodd at y cyllid sydd eisoes wedi'i roi. Mae'r pwyllgor yn bwriadu dychwelyd at y mater hwn eto.

44. Mae'r pwyllgor yn deall pryderon ysgolion nad yw'r adnoddau a neilltuwyd o bosibl yn cyrraedd yr ysgolion sydd eu hangen. Tra bo'r pwyllgor yn cydnabod mai gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru yw penderfynu ar y dulliau priodol ar gyfer neilltuo'r cyllid hwn, yng nghyd-destun prosesau cyllido llywodraeth leol, mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth i sicrhau bod y dulliau hyn yn darparu'r arian i'r ysgolion sydd ei angen.

45. Yn olaf, mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi penderfyniad y Gweinidog i ymestyn y cyfnod cyflwyno i bedair blynedd, gan y bydd hyn yn rhoi cyfle i ddatrys nifer o'r materion y mae'r pwyllgor wedi'u hamlygu. Mae'r pwyllgor yn cydnabod y bydd nifer o ysgolion yn defnyddio'r flwyddyn i gwblhau'r gwaith cynllunio ar gyfer proses sydd, yn ôl disgrifiad y Gweinidog, ymhlith y diwygiadau mwyaf ym myd addysg erioed yng Nghymru. Mae'r

pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu'r cyllid angenrheidiol a fydd yn sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno yn y modd gorau posibl dros y pedair blynedd nesaf.

Angela Burns, AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cyfeiriadau

[i] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraffau 223-224
[ii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 92
[iii] FIN(3) 08-08 (p2) Ymchwiliad i ariannu'r Cyfnod Sylfaen: tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
[iv] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 4
[v] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 20
[vi] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 20
[vii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 8
[viii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 27
[ix] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 27
[x] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraffau 27
[xi] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 103
[xii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 94
[xiii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 95
[xiv] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 97
[xv] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 103
[xvi] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraffau 254, 292
[xvii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 255
[xviii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 8
[xix] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 67
[xx] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraffau 173, 277
[xxi] Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, Tudalen 12
[xxii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 272
[xxiii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 183
[xxiv] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 63
[xxv] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraffau 323, 325
[xxvi] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 326
[xxvii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 350
[xxviii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 74
[xxix] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 77
[xxx] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 77
[xxxi] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraffau 328, 219
[xxxii] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 42
[xxxiii] Llythyr gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 2 Mehefin 2008, Paragraff 6
[xxxiv] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 217
[xxxv] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 217
[xxxvi] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 219
[xxxvii] Llythyr gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 2 Mehefin 2008, Paragraff 6
[xxxviii] Llythyr gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 2 Mehefin 2008, Paragraff 7
[xxxix] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 54
[xl] Llythyr gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 2 Mehefin 2008, Paragraff 4
[xli] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Mai 2008, Paragraff 264 a FIN(3) 08-08 (p2) Ymchwiliad i ariannu'r Cyfnod Sylfaen: tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon